**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**DYDD GWENER, 25 MEHEFIN 2021**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.Wingrave a/ac P.D.Richards

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

S.Brennan, C.Morris, M.Shaw, L.Beynon, N.Headon a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion Craffu:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt and R.Taylor

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 14 Mai, 2021.

4. **DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013: YSTYRIED GOFYNION AR GYFER MAP RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL YR YMGYNGHORIAD DRAFFT AR GYFER CASTELL-NEDD PORT TALBOT A RHOI'R CYHOEDDIAD/GWEITHDREFNAU YMGYNGHORI AR WAITH**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, cymeradwyir y canlynol:

1. Cytunir bod dogfen ddrafft yr Ymgynghoriad ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn sail i'r ymgynghoriad.

2. Bydd trefniadau ymgysylltu ac ymgynghori, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu rhoi ar waith.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

**Penderfyniad:**

Nodi'r Blaenraglen Waith

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD**: Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

7. **HEN GLWB Y RHYDDFRYDWYR, STRYD Y BERLLAN, CASTELL-NEDD (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, penderfynwyd y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Daw ailddatblygiad yr hen Glwb Rhyddfrydol yn brosiect sy’n ariannol dichonadwy, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **HEN YSGOL ISAF DYFFRYN, PORT TALBOT (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio, ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu gwerthu eiddo dros ben ac ennill derbynneb cyfalaf.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **PORT TENNANT COMPANY LTD YN ERBYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, rhoddir cymeradwyaeth i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

a Democrataidd a'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio drefnu’r gweithredoedd, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I alluogi’r swyddogion i drefnu’r gweithredoedd yn y ffordd fwyaf cost effeithiol ac amserol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

I'w rhoi ar waith ar unwaith.

10. **ADNEWYDDU PRYDLES - GWEITHDAI PENTREF LÔN-LAS, SGIWEN, CASTELL-NEDD (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, rhoddir awdurdod dirprwyedig hwnnw i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bydd adnewyddu'r brydles yn caniatáu i'r Gweithdai barhau i ddarparu ffynhonnell adfywio werthfawr o unedau a swyddfeydd bach ar gyfer busnesau lleol newydd a mwy sefydledig yn y Fwrdeistref Sirol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**